CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

363/51

# DRAMA AC ASTUDIAETHAU'R THEATR

## DR3: Uned 3 Dadansoddi Testun

P.M. DYDD GWENER, 9 Mehefin 2006

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Mae pob cwestiwn yn cynnwys dwy ran. Mae'r rhan gyntaf, (i), yn ymwneud â'r hyn sy'n cymell y cymeriadau a gweithrediadau, a'r ail ran, (ii), yn ymwneud ag awyrgylch a photensial llwyfannu.

Cewch gynnwys diagramau lle bo angen. Os defnyddiwch bapur ar wahân ar gyfer y rhain, a wnewch chi ei osod yn eich llyfryn ateb i'w gyflwyno.

Mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau; cynghorir chi i rannu eich amser yn unol â hynny.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Atgoffir chi ei bod yn angenrheidiol i chi ysgrifennu Cymraeg da a chyflwyno eich atebion yn drefnus.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

Atebwch y **ddwy** ran o'r cwestiwn ar **un** testun gosod a ddewiswyd gennych.

*Yn rhan (i), cewch gyfeirio, lle bo'n briodol, at rannau eraill o'r ddrama, neu at y ddrama fel cyfanwaith, ond dylai'r ateb ganolbwyntio ar yr olygfa benodol.*

**1.** ***ROMEO A JULIET***

Edrychwch eto ar Act 2, Golygfa 4, ar ôl i Mercutio a Benvolio adael y llwyfan hyd at ddiwedd yr olygfa.

(i) Pa gyngor y byddech yn ei roi i actor sydd ar fin perfformio rhan y Nyrs yn y darn hwn? Yn eich ateb dylech gyfeirio at yr hyn sy'n cymell y cymeriad, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiadau. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon? Dylech gynnwys manylion am leoliad y gynulleidfa, y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**2.** ***THE SCHOOL FOR SCANDAL***

Edrychwch eto ar Act 2, Golygfa 3.

(i) Pa gyngor y byddech yn ei roi i actor sydd ar fin perfformio rhan Sir Oliver yn y darn hwn? Yn eich ateb dylech gyfeirio at yr hyn sy'n cymell y cymeriad, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiadau. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon? Dylech gynnwys manylion am leoliad y gynulleidfa, y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**3.** ***TŶ DOL***

Edrychwch eto ar ddechrau Act 2 o'r man lle mae Kristina (Mrs Linde) yn dod ar y llwyfan hyd at y pwynt lle mae Nora'n dweud wrthi am gael dogfennau yn ôl ar ôl i'r ddyled gael ei had-dalu.

(i) Pa gyngor y byddech yn ei roi i actor sydd ar fin perfformio rhan Nora yn y darn hwn? Yn eich ateb dylech gyfeirio at yr hyn sy'n cymell y cymeriad, perthynas cymeriadau â'i gilydd, defnydd o'r llais a symudiadau. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon? Dylech gynnwys manylion am leoliad y gynulleidfa, y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

## ADRAN B

Atebwch y **ddwy** ran o'r cwestiwn ar **un** testun gosod a ddewiswyd gennych.

*Yn rhan (i), cewch gyfeirio, lle bo'n briodol, at rannau eraill o'r ddrama, neu at y ddrama fel cyfanwaith, ond dylai'r ateb ganolbwyntio ar yr olygfa benodol.*

**4.** ***PRIODAS WAED***

Edrychwch eto ar ddiwedd y ddrama o'r man lle mae'r Briodferch yn dod ar y llwyfan mewn mantell ddu i'r pwynt lle mae'r Fam yn dweud wrth y Briodferch am wylo wrth y drws.

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng y Fam a'r Briodferch yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon ar lwyfan arena (cynulleidfa ar dair ochr)? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**5.** ***THE ZOO STORY***

Edrychwch eto ar ddechrau'r ddrama hyd at y pwynt lle mae Jerry'n dweud: '*And you're not going to have any more kids, are you?*'

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng Jerry a Peter yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon ar lwyfan arena (cynulleidfa ar dair ochr)? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**6.** ***THE ROYAL HUNT OF THE SUN***

Edrychwch eto ar Act 2, Golygfa XI, hyd at y pwynt lle mae Pizarro'n dweud: '*Go on!… Go on!... Go on!*'

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng Pizarro a Young Martin yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon ar lwyfan arena (cynulleidfa ar dair ochr)? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]

**7.** ***WYNEB YN WYNEB***

Edrychwch eto ar dudalen 8, o:

TOM: Doedd gyno chi ddim hawl trefnu dim heb ofyn i mi gynta!

hyd at dop tudalen 10:

TOM: Yn union. Fy newis i.

(i) Dadansoddwch y berthynas ddramatig rhwng Tom a Laura yn y darn hwn. [15]

(ii) Beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa hon ar lwyfan arena (cynulleidfa ar dair ochr)? Dylech gynnwys manylion am y set, y gwisgoedd, y goleuo a'r sain. Rhowch resymau dros eich syniadau. [15]